Pryd bynnag byddwch angen cyngor neu gymorth arbennig neu os bydd unrhyw broblem a'ch cadair, mae pob croeso i chi gysylltu a'r gwerthwr INVACARE lleol. Dim ond codi'r ffon sydd rhaid i chi ei wneud a bydd rhywun ar gael a'r holl offer a'r wybodaeth sydd eu hangen i roi gwasanaeth proffesiynol arbenigol i chi.

Nodyn i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn

Mae INVACARE yn cynnig dewis eang o gadeiriau olwyn i ateb gofynion defnyddwyr. Fodd bynnag, ymgynghorwyr cymwysedig sy'n llwyr gyfrifol am benderfynu pa fath o fodel y dylai defnyddwyr ei chael.

Ni ellir dal INVACARE, na'i gynrychiolwyr penodedig, yn gyfrifol os defnyddir cadair olwyn nad yw'n addas ar gyfer lefel anabledd y defnyddiwr, os defnyddir y gadair olwyn ei hun yn anghywir neu os cyfyd problem am nad yw'n cael ei chynnal a'i chadw'n gywir.

Efallai y bydd y wybodaeth yn y llawlyfr hwn yn newid heb rybudd ymlaen llaw. Mae hawlfraint ar y wybodaeth yn y llawlyfr hwn. Cedwir pob hawl. Ni ellir llungopio unrhyw ran o'r ddogfen hon na'i hatgynhyrchu heb gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan INVACARE neu un o'i gynrychiolwyr penodedig.

Yn y llawlyfr hwn, ceir manylion holl fodelau cadeiriau olwyn Celt Plus. Mae'n disgrifio'r opsiynau, sut i'w gweithredu a'r addasiadau all fod angen eu gwneud. Fodd bynnag, gall eich gwerthwr nwyddau INVACARE roi rhagor o wybodaeth i chi a dangos sut mae'r gadair yn gweithio.

Y Cynnwys

Tudalen

Nodyn i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn	1
Y Cynnwys	2-3
1. Diogelwch a chyfyngiadau gweithredu	4-13
1.1 Cyfyngiad pwysau	4
1.2 Estyn am rywbeth o gadair olwyn	4-6
1.3 Symud i seddau eraill	7-8
1.4 Gogwyddo	9-10
1.5 Ymyl pafin	10
1.6 Grisiau	11
1.7 Symud i fyny ac i lawr llethrau	12-13
2. Defnydd	13-14
2.1 Plygu ac agor y gadair olwyn	13-14
2.2 Gyrru'r gadair yn ei blaen	14
3. Crynodeb o'r cyfarwyddiadau diogelwch	15
4. Disgrifiad cyffredinol	16-17
5. Cynhalydd y cefn	18
6. Sedd	18
7. Gwahanol fathau o freichiau	19-20

Y cynnwys - parhad.

8. Siasi	.21
9. Olwynion ol	.21-22
10. Olwynion bach	.23
11. Breciau	.23-24
12. Cynhalwyr traed	.24-26
13. Strapiau cefnogi'r sodlau	.26
14. Cynhalydd Pen	.27
15. Atodion ol i sadio'r gadair	.27
16. Gwregys diogelwch	.28
17. Cynhalydd Cefn	.28
18. Cynhalydd Coes sy'n Codi	.29
19. Atodiad i'r Cynhalydd Troed	.29
20. Handlenni gwthio	.29
21. Addasu Cynhalydd cefn syn Gwyr Ynwl.	.29
22. Archwilio'r gadair yn gyson a chynnal a chadw	.30-31
23. Cludiant	.31-32
24. Gwarant	.33
25. Storio	.33
26. Glanhau	.33

1 - Diogelwch a chyfyngiadau gweithredu

Sadrwydd a chadw cydbwysedd

Er mwyn sicrhau bod y gadair yn aros yn sefydlog a'ch bod yn ei thrin yn gywir, rhaid i chi sicrhau eich bod yn cadw cydbwysedd bob amser. Mae nifer o symudiadau yn achosi i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ymestyn, pwysu drosodd neu symud o gwmpas yn y gadair a'r tu allan iddi. Bydd y symudiadau hyn yn newid eich canolbwynt disgyrchiant a dosbarthiad eich pwysau yn y gadair.

Mae eich cadair wedi ei chynllunio i aros yn sefydlog wrth i chi ei defnyddio o ddydd i ddydd cyhyd a'ch bod yn ei defnyddio'n gywir ac yn cymryd sylw o'r rhagofalon a argymhellir yn y llawlyfr hwn.

1.1 - Cyfyngiad pwysau


Mae'r pwys ddefnyddwyr uchaf i olwynion 12 1/2" soled neu newmateg ac olwynion ol 20", 22" a 24" newmateg yn 127kg (20 pwys). Mae'r pwys ddefnyddwyr uchaf i olwynion 20", 22" a 24" efo teiars soled yn 114kg (18 pwys).

Serch hynny, mae lefel symud y defnyddiwr yn bwysig. Er enghraifft, gallai defnyddiwr a lefel symud uchel ac sy'n pwysu 75kg roi mwy o straen ar y gadair olwyn na defnyddwyr sy'n pwysu 115kg. Rydym yn argymhell bod defnyddwyr cadeiriau olwyn sydd a lefel symud uchel iawn yn dewis cadair a chynllun priodol. Bydd eich dosbarthwr INVACARE cymeradwy yn eich cyngori pa fodel fyddai orau.

1.2 - Estyn am rywbeth o gadair olwyn


Mesurwyd y cyfyngiadau ar estyn am rywbeth o gadair olwyn a welir yn ffigwr 1 gan ddefnyddio sampl gynrychioladol o bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.

Dim ond eich breichiau a ddylai ymestyn y tu hwnt i sedd y gadair. Er diogelwch, dylai'r corff a'r pen aros o fewn y ffram a ffurfir gan yr olwynion.



Gosodwch yr olwynion bach fel eu bod yn rhoi'r hyd hiraf bosib i'r ffram a ffurfir gan yr olwynion (Ffigwr 2).




Clowch y breiciau llaw ar yr olwynion ol..



Pwyso ymlaen

(Ffigyrau 3, 4 a 5):



Ewch a'r gadair cyn agosed a phosib at y gwrthrych rydych yn ceisio ei gyrraedd. Peidiwch ag ymestyn os nad yw'r gwrthrych o fewn cyrraedd hyd braich a chithau ar eich eistedd.



Pwyso nol

(Ffigyrau 6 a 7)

Ewch a'r gadair mor agos a phosib at y gwrthrych rydych yn ceisio ei gyrraedd. Peidiwch a phwyso nol os nad yw'r gwrthrych o fewn cyrraedd hyd braich a chithau ar eich eistedd.



Pwyso i un ochr


(Ffigwr 8)

Hwn yw'r symudiad peryclaf gan ei bod yn hawdd troi drosodd wrth bwyso i'r ochr.

Er mwyn symud at y gwrthrych a phwyso drosodd, rhaid i chi ddefnyddio'r olwynion bach fel ffordd o gadw'r gadair yn sad a chytbwys. (Ffigwr 2)

Er diogelwch i chi'ch hun, mae'n hanfodol eich bod yn eistedd yn yr ystum cywir.

Peidiwch a cheisio codi rhywbeth o'r llawr os yw'n debyg o amharu ar eich cydbwysedd.



1.3 - Symud i seddau eraill

Mae'n bosib symud i mewn ac allan o gadair a yrrir a llaw os dilynwch chi'r canllawiau hyn.

Nid yw INVACARE yn argymhell unrhyw ddull penodol o symud o un sedd i'r llall: Cyfrifoldeb ymgynghorydd meddygol yw hyn a ddylai ystyried eich lefel anabledd a pha fath o gadair olwyn sydd gennych.

Wrth symud, naill ai i ddod allan o'r gadair olwyn neu i ddychwelyd iddi, sicrhewch:

Fod y bwllch rhwng y ddwy sedd mor gyfyng a phosib. (Ffigyrau 9 a 10).


Bod y brecioau llaw ar yr olwynion ol ymlaen er mwyn rhwystro'r gadair olwyn rhag symud. (Ffigwr 11).

Trowch y ddwy olwyn fach i gyfeiriad y sedd rydych am symud iddi. Codwch y platiau traed.


Peidiwch a sefyll ar y platiau traed.




9



10




11




12

Os yn bosib, plygwch gynhalwyr y platiau traed i'r ochr er mwyn gwneud lle clir. (Ffigwr 13).




Os yn bosib, tynnwch y fraich ar yr ochr rhwng y gadair olwyn a'r sedd arall (Ffigwr 14).



SYLWCH

Peidiwch byth a sefyll ar y platiau traed. (Ffigwr 15).



1.4 - Gogwyddo (cydbwyso ar yr olwynion ol)

Gogwyddo heb gymorth rhywun arall

Mae cadeiriau olwyn INVACARE wedi eu cynllunio i gael eu defnyddio gan bobl sydd wedi meistrolï'r grefft o gydbwyso'r gadair ar yr olwynion ol heb gymorth neb arall. Er hynny, ddylech chi byth ogwyddo'r gadair ymhellach na'r hyn a ganiateir gan gyfyngiadau'r gadair. Gallai sioc gyson ar yr olwynion bach drwy ogwyddo'r gadair olwyn ar i fyny eich hun amharu ar dyndra a gosodiad eich cadair olwyn. Os oes atodion wedi eu gosod ar y gadair, gallent effeithio ar y dull a ddefnyddiwr i ogwyddo'r gadair ar yr olwynion ol.

Os ydych chi am ddysgu techneg newydd, gofynnwch am gyngor rhywun profiadol ynglyn a defnyddio eich math chi o gadair olwyn.

Gogwyddo gyda chymorth rhywun arall:


Dylai'r defnyddiwr fod yn eistedd yn gywir ac yn gadarn yn y gadair, neu, os na allant gynnal eu hunain, dylent fod wedi eu strapio i'w lle i'w rhwystro rhag disgyn allan o'r gadair.

Os oes ar ddefnyddiwr y gadair olwyn angen help i ogwyddo'r gadair, rhaid i'w cynorthwy-ydd wybod sut i ddefnyddio ei gorff/chorff yn gywir. Cadwch eich cefn yn syth a phlygwch eich penliniau i ogwyddo'r gadair olwyn.

Peidiwch byth a defnyddio gormod o rym. Bydd y tim meddygol sydd yng ngofal y defnyddiwr yn eich cynghori ar y dulliau gorau ar gyfer eich siap corff chi. Bydd dosbarthwr cymeradwy INVACARE yn rhoi gwybod i chi beth yw'r peryglon o ddefnyddio'r gadair olwyn yn anghywir os oes gan y gadair rannau sy'n dod yn rhydd fel y breichiau neu gynhalwyr y coesau.

Peidiwch BYTH a defnyddio'r rhain i helpu wrth godi gan y gallent ddod yn rhydd ar ddamwain ac achosi niwed.

Er mwyn gogwyddo'r gadair, dylai'r trydydd person afael yn dyn yn yr handlenni. (Ffigwr 16). Rhybuddiwrch y defnyddiwr cyn gogwyddo'r gadair a'i h/atgoffa ef neu hi i bwyso am yn ol. Gofalwch nad yw traed na dwylo'r defnyddiwr yn agos at yr olwynion. Rhwch eich troed ar y bar gris a gwithiwrch mor llyfn a phosib nes bod y gadair yn gogwyddo ar bwynt cydbwysedd.



Pan fydd y gadair yn y sefyllfa hon, bydd y cynorthwy-ydd yn teimlo gwahaniaeth yn nosbarthiad y pwysau, sy'n digwydd fel arfer ar ongl o tua 30°. Trowch y gadair olwyn i'r cyfeiriad y carech fynd iddo ac ewch dros y rhwystr.


Yna, dylech ostwng blaen y gadair olwyn mewn un symudiad llyfn, gan afael yn yr handlenni yn dynn. Rhowch eich troed ar y bar gris i wrthbwysu'r pwysau.

1.5 - Ymyl pafin neu rwystrau 30 i 50 mm o uchder

Dull 1 - Mynd ymlaen dros y rhwystr

(Ffigwr 17)


Dylai'r cynorthwy-ydd ogwyddo'r gadair olwyn nes bod yr olwynion bach wedi pasio dros ymyl y pafin. Gwthiwch y gadair olwyn ymlaen a gostwng yr olwynion bach yn ofalus nes eu bod yn cyrraedd y pafin. Gwthiwch y gadair olwyn nes bo'r olwynion ol ar ymyl y pafin. Codwch a gwthiwch nes bo'r olwynion ol wedi cyrraedd ymyl y pafin. Peidiwch a chodi'r gadair gerfydd yr handlenni ar gynhaliwr y cefn yn unig.



Dull 2

(Ffigwr 18)

Dylai'r cynorthwy-ydd sefyll ar y pafin a throi'r gadair olwyn nes bo'r olwynion ol yn sefyll yn erbyn ymyl y pafin. Gogwyddwch y gadair olwyn yn ol nes ei bod yn cyrraedd pwynt cydbwysedd ac, mewn un symudiad parhaus, tynnwch y gadair olwyn nes bo'r olwynion ol yn mynd ar ymyl y pafin ac yna ar y pafin. Peidiwch a gostwng yr olwynion bach i'r llawr nes eich bod wedi tynnu'r gadair olwyn yn ddigon pell i gynhalydd y cefn fod wedi mynd dros ymyl y pafin. SYLWER: Os yw'r cefn yn un sy'n plygu dylech edrych i wneud yn siwr ei fod wedi ei gloi yn ei le yn iawn.



1.6 - Grisïau, staerau neu rwystrau dros 50 mm o uchder


Rydym yn argymell eich bod yn ofalus iawn wrth fynd a chadair olwyn i fyny neu i lawr y grisïau. Mae angen dau berson i wneud hyn.

Pan yr ydych yn codi y cadair olwyn, gwneud yn siwr yr ydych yn gafael y rhannau sy ddim yn symudol yn unig.


Gwneud yn sicr yr ydydch yn defnyddio yr ystum codi cywir i osgoi anafiad

1.7 - Symud cadair i fyny ac i lawr llethrau (cyfyngiadau gweithredu)

Peidiwch a cheisio mynd i lawr nac i fyny llethrau dros 9% heb help. (Ffigwr 19).




Cofiwch sicrhau bod y gadair yn syth wrth fynd i fyny neu i lawr llethrau neu gallai droi drosodd. (Ffigwr 20).



I fyny llethrau

Pwyswch ran ucha'r corff ymlaen a gwithiwc y gadair yn ei blaen drwy droi'r rheilen yrru yn sydyn ac yn chwim er mwyn cadw'r cyflymdra a rheoli i ba gyfeiriad rydych yn mynd. Os oes arnoch angen cymryd hoe fach, rhwch y ddau frec ymlaen wrth stopio. (Ffigwr 21).




Sylwer: Argymhellwn eich bod yn defnyddio Atodion arbennig i sadio'r gadair wrth fynd i fyny llethrau.

I lawr llethrau

22

Pwyswch yn ol yn ofalus a gadewch i'r rheiliau gyrru lithro drwy'ch dwylo. Byddwch yn barod i ymateb ar amrantiad er mwyn cadw rheolaeth ar ba mor gyflym ac i ba gyfeiriad rydych chi'n mynd drwy gadw'ch dwylo'n agos at y rheiliau gyrru. Ni ddylech ddefnyddio'r brecioau llaw i arafu eich hun. (Ffigwr 22).



Wrth fynd i fyny neu i lawr llethr, ceisiwch osgoi troi yn sydyn a pheidiwch byth a cheisio mynd i fyny nac i lawr yn groes gongl.

2 - Defnydd

2.1 - Plygu ac agor y gadair olwyn

Cadeiriau a sedd wedi ei gwneud o ddefnydd.


Plygu

Codwch y platiau traed


Rhyddhewch glicied cynhalydd y cefn os oes angen.

Gan ddefnyddio'ch dwy law, gafaelwch yng nghanol defnydd y sedd yn nhu blaen a thu ol y sedd a'i chodi. (Ffigwr 23).

Neu, trowch y gadair olwyn i un ochr a'i chau gan ddefnyddio handlenni cynhalydd y cefn neu'r breichiau. (Ffigwr 24).



23




24

Agor

(Ffigwr 25)

Gallwch agor y gadair olwyn drwy afael yn y fraich neu'r ochr sydd agosaf atoch ar y gadair olwyn, troi'r gadair ar ei hochr (codi'r olwyn ol a'r olwyn fach oddi ar y ddaear) a phwyso'r bar sy'n cynnal defnydd y sedd nes ei fod yn ei le yn iawn. Dylai defnydd y sedd fod wedi ei agor yn llawn.



25

SYLWCH

I osgoi niweidio eich hun, cadwch eich dwylo a'ch bysedd oddi wrth unrhyw rannau sy'n symud (y breichiau, y ffram sy'n plygu, cynhalwyr y traed neu'r brecio, ayb).


2.2 - Gyrru'r gadair yn ei blaen

Mae rheiliau gyrru wedi eu gosod ar olwynion eich cadair olwyn. (Ffigwr 26). Bydd y staff cymwys yn gallu eich cynghori ynglyn a'r ffordd orau i yrru'r gadair.

Gellir gosod amrywiol atodion er mwyn gwella'r gafael (gorchudd plastig, styds).

Pwyswch ran ucha'r corff ymlaen a gwthiwch y gadair yn ei blaen drwy droi'r rheiliau gyrru yn sydyn a chwim er mwyn cadw'r cyflymdra a rheoli i ba gyfeiriad rydych yn mynd.

Byddwch yn barod i ymateb ar amrantiad er mwyn cadw rheolaeth ar ba mor gyflym ac i ba gyfeiriad rydych chi'n mynd drwy gadw'ch dwylo'n agos at y rheiliau gyrru.



26

3. Crynodeb

o gyfarwyddiadau er mwyn gwella diogelwch

- **Peidiwch a cheisio** estyn at wrthrych os oes raid i chi symud ymlaen yn eich sedd
- **Peidiwch a cheisio** estyn at wrthrychau sydd ar y llawr os oes raid i chi bwyso i lawr ymhellach na'r cyfyngiadau diogelwch
- **Peidiwch a phwyso** yn rhy bell yn ol i gyrraedd at wrthrych sydd y tu ol i chi: gallech droi drosodd.
- **Peidiwch a symud** eich pwysau, neu eich ystum eistedd i'r cyfeiriad rydych yn ceisio mynd iddo: gallech droi drosodd.
- **Gosodwch y ddau** frec llaw ymlaen bob amser cyn ceisio dod allan o'r gadair olwyn neu ddychwelyd iddi.
- **Nid yw'r brecio llaw wedi eu cynllunio i'ch arafu.**
- **Peidiwch a cheisio** stopio cadair olwyn sy'n symud gyda'r brecio llaw.
- **Peidiwch a gogwyddo'r gadair olwyn heb gymorth rhywun arall wrth geisio mynd dros rwystrau dros 30mm o uchder**
- **Peidiwch a defnyddio** grisiau symudol er mwyn symud cadair olwyn o un llawr i un arall. (Gallai hyn achosi niwed difrifol.)
- **Peidiwch a defnyddio** eich cadair olwyn os nad yw'r teiars wedi eu llenwi i'r pwysedd cywir sy'n cael ei ddangos ar eu hochrau.
- **Peidiwch a gorlenwi'r teiars.** Gallai methu a chydymffurfio a'r cyfarwyddiadau hyn achosi i'r teiar fyrstio ac achosi niwed corfforol.
- **Cofiwch gynnal** yr archwiliadau rheolaidd a argymhellir yn y canllawiau hyn a chan eich gwerthwr INVACARE cymeradwy.
- Defnyddiwch eich cadair olwyn gan barchu eraill
- **Peidiwch a defnyddio** eich cadair olwyn fel sedd teithio mewn cerbyd. Os nad yw'n ymarferol symud y defnyddiwr (Gweler adran 23 - Cludo).

4. Disgrifiad

Mae pob cadair olwyn wedi ei chynllunio'n arbennig i fodloni gofynion ei defnyddiwr. Mae'r llawlyfr hwn yn disgrifio sut i addasu cadeiriau'r gyfres hon, gan eich galluogi i ganfod sut i addasu'r gadair olwyn i ateb eich anghenion penodol chi.

Disgrifiad cyffredinol

Mae nifer o brif rannau ar eich cadair olwyn y byddwn yn son amdanynt drwy'r llawlyfr hwn.
Maent yn cael eu disgrifio isod.

Mae **cynhalydd y cefn, y sedd a'r breichiau** yno i'ch cynnal.

Mae'r **siasi plyg** yn cynnwys y **fframiau ochr a'r ffram draws sy'n plygu**.

Dyma'r fframwaith allweddol sy'n cynnal y gadair olwyn ac mae pob rhan wedi ei gosod ar y darnau hyn.

Mae'r **olwyn ol** yn cynnwys **olwyn, echel a rheilen yrru**.

Mae'r olwynion ol yn cyffwrdd y llawr ac yn cael eu gyrru drwy droi'r rheiliau gyrru.

Mae'r **olwynion bach ar y tu blaen** yn cynnwys y fforch a'r olwynion.

Mae'r olwynion blaen yn cyffwrdd y llawr ac mae'r ffyrch troi yn llywio'r gadair.

Brec llaw

Defnyddir y brec llaw i barcio'r gadair olwyn.


Cynhalwyr i'r traed a'r coesau sy'n plygu o'r neilltu

Mae'r rhain wedi'u cysylltu i'r siasi a gellir eu plygu o'r neilltu er mwyn ei gwneud yn haws i symud i mewn ac allan o'r gadair.

Mae **cydrannau'r platiau troed** yn cynnwys **tiwb symudol a phlat troed**. Mae'r rhain yn cynnal eich traed.

Strap cynnal y sawdl neu strap cynnal y goes

Mae'r ddau strap yma'n cynnal eich traed neu'ch coesau yn y safle gorau. Dangosir y rhannau hyn yn y diagram a ganlyn.




5. Cynhalydd Cefn Plyg

Llun 1

I blygu y cynhalydd cefn, sefwch y tu ol i'r gadair a chodwch y ddau lifer sydd ar bob ochr y ffram cefn ar yr un pryd (ffigwr 2). Pan fydd y ddau lifer i fyny, gall y cynhalydd cefn blygu ar y colyn.

I godi'r cynhalydd, codwch ef hyd nes iddo fod yn syth a gwiriwch fod y liferi wedi cwmpo'n iawn a'u cloi.




Pwysig - Sicrhewch fod dyfais cloi y cynhalydd cefn yn y man cywir cyn defnyddio'r gadair olwyn.

6. Sedd

Llun 2

Mae defnydd y sedd wedi ei osod gyda sgriwiau ar diwbiau sedd y bar traws sy'n plygu.

Addasu: Nid oes raid addasu'r model hwn. Dim ond sicrhau bod y sgriwiau (A) yn dyn. Os yw'r wasieri (B) yn rhydd, dylech dynhau'r sgriwiau yma. Os yw'r broblem yn parhau, cysylltwch 'ch gwerthwr INVACARE a gofynnwch iddo newid y ffordd mae wedi ei osod er mwyn diogelwch.



Clustog y sedd

Mae clustog y sedd wedi ei osod ar y defnydd a rhaid ei dynnu i ffwrdd wrth blygu'r gadair.

7. Breichiau Datodadwy

Llun 3

Gall y breichiau gael eu tynnu er mwyn eu storio'n haws a'u trosglwyddo o'r gadair i'r ochr.

Mae'r cynllun hwn yn caniatáu i hambwrdd gael ei osod (dewis ychwanegol).


I dynnu'r breichiau i ffwrdd - throwch y lifer rhyddhau (sy'n gwthio allan o dan flaen y ddwy fraich) i fyny ac ar yr un pryd codwch y breichiau allan o'r socedi (ffigwr 3).

I ailosod y breichiau - rhowch y tiwbiau breichiau blaen a chefn gyda'u socedi priodol a gwasgwch i lawr ar flaen y breichiau hyd nes i'r lifer rhyddhau gloi.

Pwysig - Sicrhewch fod y dyfais cloi breichiau yn y man cywir cyn defnyddio'ch cadair olwyn.

8. Siasi Fframiau ochr

Ar y fframiau ochr y gosodir yr olwynion ol a'r olwynion bach.



Addasu: Nid oes modd addasu'r mathau hyn o gadeiriau olwyn.

Ffram draws sy'n plygu

Mae dau ran i'r ffram draws sy'n plygu sy'n eich galluogi i blygu'r gadair olwyn.

Addasu: Nid oes angen addasu. Er mwyn plygu neu agor eich cadair olwyn, darllenwch y llawlyfr diogelwch hwn.

9. Olwynion ol Olwynion

Llun 4

Mae'r olwynion ol wedi eu gosod ar flociau sy'n gwneud y gadair yn sefydlog tuag yn ol. Dim ond technegydd cymwysedig a ddylai addasu eu lleoliad a hynny ar ol derbyn cyngor ymgynghorydd cymwysedig.

Mae gan yr olwynion ol ddiamedr naill ai o 600 mm, 550mm neu 500mm. Mae ganddynt sbocs a rheilen yrru. Bydd ganddynt deiars rwber neu deiars soled ac maent wedi eu cysylltu a'r ffram ochr drwy gyfrwng echel sefydlog neu echel hawdd ei rhyddhau.

Pwysedd aer y teiars.

Dangosir y pwysedd aer cywir ar y teiars ac ni ddylid eu llenwi'n fwy na hynny. Cofiwch fod yn rhaid i bwysedd aer y ddwy olwyn fod yn gyfartal er mwyn sicrhau llywio perffaith.

Os cewch chi dwll yn y teiar, rhaid ei ryddhau o'r ymyl. Pwyswch y falf er mwyn gollwng gweddill yr aer allan o'r tiwb mewnol. Tynnwch y teiar oddi ar yr ymyl. Trwsiwch y tiwb mewnol neu osod un newydd. Rhowch y teiar yn ol ar yr ymyl. Llenwch y teiar nes ei fod yn cyrraedd y pwysedd gofynnol.

Nodyn: Efallai y bydd gofyn i chi ddefnyddio un neu ddau declyn tynnu teiar (heb eu cyflenwi).

Rheiliau gyrru

Defnyddir y rheiliau gyrru gan y defnyddiwr i yrru'r gadair olwyn.

Sylwer: Gan fod y rheiliau gyrru yn dod i gysylltiad a'ch dwylo, gwnewch yn siwr nad ydynt wedi eu difrodi ac nad oes unrhyw ran o'r wyneb a allai achosi niwed i'ch dwylo.

Addasu: Nid oes angen addasu'r rheiliau gyrru.

Echelau

Lluniau 4


Mae'r echelau yn cysylltu'r olwynion ol a'r siasi. Maent naill ai'n rhai sefydlog neu'n rhai hawdd eu rhyddhau.

Olwynion hawdd eu rhyddhau

Datod: Gwthiwch ben y botwm rhyddhau gyda'ch bys a thynnwch yr olwyn tuag at du allan y gadair.

Gosod: Gwthiwch ben y botwm rhyddhau gyda'ch bys a dewch o hyd i'r echel drwy lawes yr echel gan sicrhau bod yr echelau yn eu lle'n ddiogel (nad ydynt yn symud).

Nodyn: Rhaid bod yn ofalus bod yr olwynion wedi cloi'n llawn pan yn ailgyflwyno i mewn i lawes yr echel.



10. Olwynion bach

Olwynion blaen


Mae diamedr yr olwynion blaen naill ai'n 190mm neu'n 125 mm a dim ond teiars soled nad oes modd eu rhwygo a osodir arnynt. Nid oes angen addasu'r olwynion blaen.

Ffyrch

Llun 5

Mae'r fforch yn cysylltu'r siasi a'r olwyn.

Addasu: Nid oes angen addasu'r ffyrch. Gwnewch yn siwr fod y fforch yn troi yn rhwydd.




11. Breciau llaw

Llun 6

Breciau

Defnyddir y breciau llaw i rwystro'r gadair olwyn rhag symud a'i chadw mewn un lle. Nid ydynt i'w defnyddio i arafu'r gadair ac ni ddylid eu defnyddio pan fydd y gadair yn symud.

Dylid eu rhoi ymlaen gyda'i gilydd.



Defnydd: Mae'r breciau'n gweithio drwy symud handlen y brec (A) tuag at du blaen y gadair olwyn. Pan roddir y breciau ymlaen, ni ddylai fod modd symud y gadair.

Addasu: Efallai y bydd gofyn i chi addasu'r breciau ar ol trwsio twll mewn teiar neu os yw olwyn rwber neu olwyn soled wedi gwisgo. Rhyddhewch y sgriwiau clampio ac addaswch y cydrannau brecio er mwyn sicrhau bod modd brecio'n iawn. Tynhewch y sgriwiau clampio yn dyn ar ol addasu.

Nodyn: Gosodir y breciau mewn parau ar y gadair olwyn. Wrth addasu neu dynnu'r breciau, cofiwch fod un brec ar gyfer yr ochr dde ac un arall ar gyfer yr ochr chwith.

Estyniad i'r Breciau


Efallai bod estyniad ar handlenni'r breciau er mwyn helpu cynorthwywyr/defnyddwyr nad ydynt yn ddigon cryf neu sy'n cael anhawster i gyrraedd handlenni safonol y breciau.

12. Cynhalwyr traed

Cynhalwyr traed sy'n plygu o'r neilltu

Llun 7

Gellir plygu cynhalwyr traed o'r neilltu tuag at du allan/cefn y gadair olwyn er mwyn gwneud lle yn nhu blaen y gadair olwyn a'i gwneud yn haws i'r defnyddiwr symud i sedd arall. Gellir eu tynnu oddi ar y gadair.



Defnydd: er mwyn plygu'r cynhalwyr am allan, pwyswch y lifer rhyddhau (A). Trowch y cynhalydd yn ofalus tuag at du allan y gadair olwyn.

Er mwyn rhoi'r cynhalydd yn ol, ewch yn ol drwy'r camau hyn. Gwnewch yn siwr fod y ddyfais ryddhau (A) wedi cloi yn awtomatig.

I dynnu'r cynhalydd i ffwrdd, gwasgwch y lifer rhyddhau (A), trowch y cynhalydd yn ofalus tuag at ochr tu allan y gadair olwyn a chodwch y cynhalydd i ffwrdd o'r gadair olwyn.

Addasu: Ni ellir addasu cynhalwyr traed.


Nodyn: Mae cynhalwyr traed wedi eu gosod ar y gadair olwyn mewn parau. Wrth eu haddasu neu eu tynnu, cofiwch fod un cynhalydd ar gyfer yr ochr dde ac un arall ar gyfer yr ochr chwith.

Cydrannau'r Plat Troed

Platiau troed annibynnol ar gyfer cynhalwyr traed

Llun 8

Mae cydrannau'r plat troed yn cynnwys tiwb addasu a'r plat troed ei hun ac maent i'w defnyddio i gynnal y droed wrth eistedd yn y gadair olwyn yn unig ac nid er mwyn sefyll arnynt. Gellir dal eich traed yn eu lle drwy ddefnyddio'r dolenni sodlau neu'r strapiau coesau. Gellir addasu uchder y ddau blat troed. Gellir troi'r platiau traed fel eu bod yn wynebu am i fyny er mwyn ei gwneud yn haws symud i mewn ac allan o'r gadair.



Addasu cynhalwyr traed ar y tiwbiau cynnal: Rhyddhewch y nyten (A), gan osod cydrannau'r cynhalydd traed ar yr uchder gofynnol ar y tiwb cynnal, tynhewch y nyten i'w gwneud yn ddiogel.

13. Strapiau cynnal sodlau

Er mwyn sefydlu union safle'r droed, gellir gosod strapiau i sodlau ar y cynhalydd.

Ni ellir tynnu'r strap a dylid ei ailosod tuag at y blaen wrth blygu'r plat troed yn ol.

14. Cynhalydd Pen

Llun 9

Gellir gosod cynhalydd pen ar handlenni gwthio sy'n debyg i handlenni pram. Gellir addasu'r cynhalydd pen drwy ryddhau'r boltt cloi ar y clamp addasadwy. I ddatod y cynhalydd, mae'n rhaid tynnu'r handlenni gwthio i ffwrdd.



Addasu: nid oes angen addasu'r estyniad hwn. Fodd bynnag, gellir ei dynnu i ffwrdd pan yn teithio.

15. Atodion ol i sadio'r gadair

Mae'r atodion hyn yn help i'ch rhwystro rhag troi drosodd pan fydd yr olwynion ol yn y sefyllfa anghywir, neu pan fo'r defnyddiwr neu'r cynorthwy-ydd yn trin y gadair olwyn yn anghywir.

Defnydd: Mae'r atodion ol i sadio'r gadair yn ffitio i diwbiau ol y fframiau ochr (A). Gosodwch yr atodion ar diwb ol y ffram ochr, hyd nes bo'r sbrings botwm yn eu lle yn nhyllau'r tiwb ol (A). Ewch yn ol drwy'r camau hyn er mwyn eu tynnu i ffwrdd.

- Sylwer: Ni ddylid defnyddio'r atodion hyn fel liferi gogwyddo.

16. Gwregys Diogelwch


Gall y defnyddiwr addasu'r strap gyda system fyclau.

Dylai ymgynghorydd cymwysedig ddangos i chi sut i osod y strap yn ol eich anghenion.

17. Cynhalydd Estyniad Cefn

Llun 10

Mae gan y cynhalydd cefn ddau diwb fertigol (B) a darn ychwanegol o ddefnydd. Dylid gosod y pegiau lleoli ar handlenni gwthio'r cynhalydd cefn gan dechnegydd cymwysedig yn unig.



Wrth ailosod, gnewch yn siwr ei fod wedi ei osod yn ddiogel yn y manau sydd wedi eu gosod ar diwbiau'r cynhalydd cefn. Codwch y cynhalydd pen er mwyn ei dynnu oddi ar diwbiau'r cynhalydd cefn.


Addasu: Nid oes angen addasu'r estyniad hwn. Fodd bynnag, gellir ei dynnu i ffwrdd pan yn teithio.

18. Cynhalwyr Coes sy'n Codi


Lluniau 11 a 12

Mae'r cynhalwyr coesau a ddangosir yn gynhalwyr coesau a darn annatod i gefnogi gwaelod y goes. Gellir symud y cynhalwyr coesau o'r neilltu a'u datod.

Defnydd: mae symud y cynhalwyr coesau i ffwrdd a'u datod yn dilyn yr un rheolau a'r cynhalwyr troed (gweler adran 12).



Addasu: I addasu ongl y cynhalydd, codwch ef i fyny tuag at yr ongl sydd ei angen. I symud y cynhalydd i lawr, daliwch y goes yn un llaw a gweithredwch y lifer rhyddhau (A) gyda'r llaw arall. Symudwch i'r safle sydd ei angen.




Gellir troi'r darn sy'n cefnogi gwaelod y goes wrth blygu'r gadair olwyn. Gellir gosod y darn ar y tiwb esgynadwy mewn tri man. Gellir ei osod hefyd ar hyd y tiwb esgynadwy drwy ei lithro i mewn i'r man priodol (llun 12B).

Noder: Mae'r cynhalwyr coesau sy'n codi yn cael eu gosod ar y gadair olwyn mewn parau. Wrth addasu neu ddatod, cofiwch fod yna un cynhalydd coes ar gyfer yr ochr dde ac un arall ar gyfer yr ochr chwith.

19. Cynhalwyr Troed


Os oes angen cynhalydd troed y gellir ei addasu mewn cylch ac i'r tu ol, gellir gosod uned blastig wedi ei mowldio yn lle'r cynhalydd troed arferol.



20. Handlenni Gwthio

Llun 14

Gellir gosod handlen gwthio datodadwy i'r gadair olwyn a fydd yn cadw'r cynhalydd cefn yn dynn. Mae hefyd yn caniatáu i gynhalydd pen gael ei osod ar y gadair olwyn. Mae'n cael ei osod ar y cynhalydd cefn drwy dynnu'r cydiadau. Mae'r botymau wedi eu gwasgu i lawr a gosodir yr handlen gwthio i mewn i'r pyst cynhalydd cefn.



21. Addasu Cynhalydd y cefn syn Gwyr Ynwl

Fath Sbrine Nwy

Rhybudd: Rydym ni yn argymhell fod dim ond y gwas sydd yn cario mas y gweithyrediad h-in. Gwneud yn sicr fod y cynhalydd cefn wedi cloi, I sicrhau diogelwch y defnyddwyr. Cadewch bysedd, ffwrdd o'r rhannau sy'n symud (liferi, silendrau mecanweithiau, ayyb) I atal anafiad!

1. Gafael ty handlenni gwthio efo y ddau o'ch ddwylo
2. Tynnwch y clicied a codi neu gostwng i'r safle rydych chi yn dymuno, cymorthwyo y cynhalydd cefn gan defnyddio y handlenni gwythio bob amser, yn ystod yr addasiad. Ryddhau y cliciedau.

22. Archwilio'r gadair yn rheolaidd a chynnal a chadw

Archwilio perfformiad

Fel defnyddiwr, chi fydd y cyntaf i sylwi os nad yw eich cadair olwyn yn gweithio'n iawn. Mae'r tabl hwn yn nodi rhai arwyddion hawdd eu hadnabod ac yn dweud pa brif archwiliadau y dylid eu cynnal. Fel rheol gyffredinol, y rhannau sy'n debyg o wisgo y dylech eu monitro a'u newid amlaf: teiars yr olwynion ol, yr olwynion bach blaen, padiau'r brecio, y defnydd..

Y gadair olwyn yn llusgo i'r dde	Y gadair olwyn yn llusgo i'r chwith	Y gadair olwyn yn troi neu'n symud yn araf	Yr olwynion bach yn simsan	Gwichian a chlicio	Y gadair ddim yn sefydlog	Beth i'w archwilio
X	X	X				Sicrhewch fod pwysedd y teiars yn gywir ac yn gyfartal
		X	X	X	X	Sicrhewch fod y nytau, bolltau a'r sgriwiau yn dyn
X	X	X				Sicrhewch fod ongl y ffyrch blaen yn gywir
X	X		X			Sicrhewch fod y ddwy olwyn fach yn cyffwrdd y ddaear ar yr un pryd

Os yw'r problemau yn parhau ar ol i chi gywiro pwysedd y teiars a thynhau'r nytau, bolltau a'r sgriwiau, gofynnwch am gyngor eich dosbarthwr INVACARE cymeradwy.

Archwilio cyflwr cyffredinol y gadair

Gyda gwaith cynnal a chadw, gofynnwch i'ch dosbarthwr all roi'r holl wybodaeth ofynnol i chi.

Ddwywaith y flwyddyn, gofynnwch i'ch dosbarthwr archwilio eich cadair olwyn yn drylwyr a chynnal gwaith cynnal a chadw manwl arni. Drwy wneud gwaith cynnal a chadw yn rheolaidd gallwch weld pa rannau sy'n ddiffygiol neu wedi gwisgo a gwella symudiad arferol eich cadair olwyn.

Mae'r tabl canlynol yn dangos beth i'w archwilio pan fyddwch yn cael y gadair olwyn, ac yna bob wythnos, bob mis a phob 6 mis.



Pa archwiliadau i'w cynnal

	Pan y'i cewch	Archwilio/adda su bob wythnos	Archwilio/addasu bob mis	Gwasanaeth bob 6 mis
1. Cyffredinol				
Y gadair olwyn yn plygu ac agor yn rhwydd	X			X
Y gadair olwyn yn symud mewn llinell syth (dim tyndra na llusgo	X	X		
2. Breciau llaw				
Nid yw'r breciau llaw yn cyffwrdd y teiars wrth symud	X		X	
Mae'r breciau llaw yn hawdd i'w gweithio	X			X
Nid yw'r cymalau wedi gwisgo ac nid ydynt yn dangos arwyddion o fod yn rhydd	X		X	
3. Bariau traws				
Archwiliwch nhw i wneud yn siwr nad ydynt wedi gwisgo na phlygu	X			X
4. Gwarchodwyr dillad/deunydd y breichiau				
Gwnewch yn siwr bod pob gosodiad yn ei le ac yn dyn	X			X
5. Breichiau'r gadair				
Wedi eu gosod yn gadarn ond yn hawdd i'w tynnu	X		X	
6. Padiâu'r breichiau				
Sicrhewch fod y padiau mewn cyflwr da	X			X
7. Defnydd y sedd a chynhalydd y cefn				
Sicrhewch ei fod mewn cyflwr da	X	X		
8. Olwynion 22" a 24"				
Nyten yr olwyn a'r peli traul seliedig wedi eu tynhau'n gywir	X		X	X
Dim gormod o symudiad lletraws na glynu pan codir nhw oddi ar y ddaear a'u troi, echelau hawdd eu rhyddhau wedi cloi yn gywir	X		X	
9. Rheiliau gyrru				
Sicrhewch nad oes darnau garw arnynt	X			X
10. Sbocs				
Archwiliwch y sbocs rhag ofn eu bod wedi plygu, wedi torri neu'n llac	X	X		
11. Olwynion bach 6" neu 8"				
Gofalwch fod yr echel wedi ei thynhau'n gywir, drwy droi'r olwyn fach Dylai stopio'n raddol	X	X		
12. Fforch/tiwb y fforch				
Sicrhewch fod yr holl osodiadau yn eu lle	X	X		
13. Teiars rwber a soled				
Os oes gan y gadair olwyn deiars rwber, sicrhewch eu bod wedi ei llenwi'n gywir (dangosir y pwysedd ar yr ochr)	X	X		
Os mai olwynion soled ydynt, archwiliwch yr arwyneb rhedeg	X	X		

23. Cludiant

Mae Invacare yn cynghori bob amser na all cadair olwyn sydd wedi ei chlymu mewn cerbyd fod mor ddiogel a systemau seddi cerbydau ac mae'n argymhell cludo'r defnyddiwr i seddi'r cerbyd, ond yn cydnabod hefyd nad yw bob amser yn ymarferol gwneud hyn.

Yn yr achosion hynny lle'r ystyrir bod yn rhaid cludo'r defnyddiwr tra mae yn y gadair olwyn, yna dilynwch y cyngor canlynol.

1. Gofynnwch am gadarnhad y sawl sy'n cludo fod y cerbyd wedi ei gynllunio i gludo teithiwr sy'n eistedd mewn cadair olwyn a bod cyfarpar pwrpasol yn y cerbyd i wneud hynny.

Nodyn: Mae diogelwch defnyddiwr y gadair olwyn tra mae'n cael ei gludo yn dibynnu i raddau helaeth ar ba mor ofalus yw'r sawl sy'n clymu'r gadair a strapiau dal y teithiwr.

2. Dylid tynnu unrhyw ran o'r gadair olwyn (atodion ayb.) sy'n hawdd eu datod, a'u storio yng nghist y car tra mae'n teithio.

3. Dylid cludo'r gadair olwyn tra mae'n wynebu am ymlaen bob amser. Nid yw'n dderbyniol iddi fod yn wynebu am yn ol oni ellir cynnal pen a chefn y defnyddiwr gyda chyfarpar pwrpasol.

4. Os oes cynhalydd pen ar y gadair olwyn, dylid ei ddefnyddio bob amser wrth deithio.




5. Mae Invacare yn argymhell bod y gadair olwyn yn cael ei chlymu gan systemau clymu gweog 4-Pwynt fel a gynhyrchir gan Unwin Safety Systems neu Kolley Safety Restraints Engineers.

6. Wrth gysylltu'r clymwyr i'r gadair olwyn mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cysylltu i BRIF FFRAM y gadair olwyn ac nid wrth unrhyw atodion neu ychwanegion (olwynion, rheiliau gyrru, olwynion bach, cynhalydd traed, liferi sy'n sadio'r gadair ayb.)

7. Dylid clymu'r strapiau, cyn agosed a phosib, ar ongl o 45 gradd drwy sicrhau bod y tyndra i bob cyfeiriad mor effeithiol a phosib.

8. Dylid diogelu'r defnyddiwr yn annibynnol ar y gadair olwyn gyda harnes neu wregys diogelwch addas i deithwyr sydd wedi ei gymeradwyo.

Gellir defnyddio strapiau pelfis neu wregysau glin sy'n cael eu cyflenwi gyda'r gadair olwyn yn ogystal ond byth yn lle clymwyr wedi eu cymeradwyo i deithwyr.



24. Gwarant

Gwarant dan contract

Mae hyn yn tystio fod eich cadair olwyn Celt Plus dan warant gan Invacare, am gyfnod o 3 blynedd yn achos y ffram a'r traws-fariau a 18 mis yn achos yr holl rannau eraill. Mae'r warant hon yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

1. Dim ond cadeiriau olwyn Invacare a brynwyd ar y pris llawn a warentir yn erbyn gwneuthuriad a deunyddiau diffygiol.
2. Os canfyddir diffyg neu nam dylid dweud ar unwaith wrth y sawl a gyflenwodd/werthodd y gwrthrych.
3. Ni fydd y gwneuthurwr yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw niwed a achosir drwy gamddefnyddio neu fethu a dilyn y cyfarwyddiadau a nodir yn y Llawlyfr i Ddefnyddwyr.
4. Yn ystod cyfnod y warant, bydd unrhyw rannau sydd wedi mynd yn ddiffygiol oherwydd gwneuthuriad neu ddeunyddiau diffygiol yn cael eu hadnewyddu neu eu trwsio yn rhad ac am ddim gan y cyflenwr Invacare.
5. Bydd yn rhaid fforffedu'r warant os gwneir unrhyw addasiad i'r cyfarpar heb ganiatad.
6. Ni effeithir ar hawliau statudol y prynwr dan y Ddeddf Gwarchod Defnyddwyr.

Cyfngiadau ar y rhwymedigaeth

Nid yw'r warant hon yn cynnwys costau dilynol sy'n deillio o unioni nam, yn benodol costau cludo a theithio, colli enillion, treuliau ayb.

Nid yw Invacare yn gyfrifol:

- am draul naturiol
- am ddeunydd anaddas neu anghywir
- os yw'r prynwr neu drydydd parti wedi gosod neu roi'r gwrthrych at ei gilydd yn anghywir
- os yw'r gadair yn cael ei thrin yn ddiffygiol neu'n esgeulus
- os defnyddir rhannau sbar anaddas

25. Storio

Pan nad ydych yn defnyddio'ch cadair olwyn am gyfnod hir, bydd dilyn y camau canlynol yn help i'w chadw mewn cyflwr perffaith.

Storiwch y gadair olwyn mewn lle glan a sych.

Peidiwch a rhoi pethau trwm ar ei phen.

Rhowch gynfas llwch drosti i gadw llwch oddi arni.

26. Glanhau

Gellir glanhau rhannau'r gadair olwyn gyda chadach meddal a sych.

Gellir golchi defnydd y sedd a chynhalydd y cefn sydd wedi ei wneud o Fynyl neu Neilon a'r teiars gyda chadach tamp wedi ei drochi mewn dwr glan a sebon.

Os ydych chi wedi bod allan, neu bryd bynnag y mae'r rhannau metel wedi gwlychu, dylech eu sychu er mwyn atal rhwd.

INVACARE INTERNATIONAL

Deutschland, Österreich, Switzerland & Eastern Europe: Kleistraße 49, D-32457 Porta Westfalica

France: Route de St Roch (RD 36), F-37230 Fondettes.

United Kingdom & Eire: South Road, Industrial Estate, Bridgend - UK - CF31 3PY.
South Road, Stad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3PY Cymru

España: c/ Areny, s/n, Polígono Industrial de Celrà, E-17460 Celrà (Girona).

Portugal: Rua Senhora de Campanhã, 105 P-4369-001 Porto.

Belgium & Luxemburg: Autobaan 14, B-8210 Loppem, Brügge.

Danmark: Sdr. Ringvej 39, DK-2605 Brøndby.

Sweden: Fagerstagatan 9, S-163 91 Spånga.

Norge: Grensesvingen 9, Etterstad, N-0603 Oslo 6.

Nederland: Celsiusstraat 46, NL-6716 BZ Ede.

Italia: Via dei Pini 62, I-36016 Thiene (VI)

Sverige & Suomi: Fagerstagatan 9, P.O. Box 66, S-163 91 Spånga

